Cyngor Tref TREGARON Town Council

Clerc/Clerk: Heulwen Bulman

Delfryn
Llwynpiod
Llangeitho
Tregaron
Ceredigion
SY25 6TA

Ffôn/Tel: 01974 298 367
Ffacs/Fax: 01974 298 089
E-bost/E-mail: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Ffôn symudol/mobile: 07929 970 547

CYFARFOD CYNGOR TREF TREGARON
NOS FAWRTH 6 MEHEFIN 2017 AM 8.00 O'R GLOCH
YN Y NEUADD GOFFA

COFNODION CYFARFOD MEHEFIN 2017

Cwblhawyd ffurflenni 'Derbyn Swydd' cyn y cyfarfod i'w ddechrau.

1. **CROESO**
Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol.

PRESENNOL: Cyng. David Bennett (Cadeirydd), Cyng Catherine Hughes, Gwilym Jenkins, Ann Jones, Arwel Jones, Alun Owen, June Owens & Cyng Rhydian Wilson.

2. **YMDDIHEURIADAU:** Neb

3. **MATERION PERSONOL**
Estynnwyd llongyfarchiadau i CFfI Tregaron am Rali Sir 2017 llwyddiannus iawn.

4. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL**

5. **CADARNHAU COFNODION 12 MAI 2017**
Cynnig: Cyng Arwel Jones
Eilio: Cyng Gwilym Jenkins

6. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**
6.1 Jeff Jenkins yn amcan £300 i ddodi golau stryd ar Henry Richard a'r neuadd goffa.
6.2 Cytunwyd i Cyng Arwel Jones a Cyng Rhydian Wilson i wneud arolwg ar y parc bob wythnos tan y cyfarfod nesaf ac wedyn trosglwyddo'r ffurflen i'r Cynghorwr nesaf trwy law'r cyfarfod nesaf sydd i barhau gwneud arolwg am y mis canlynol. Cyng Rhydian Wilson i wneud sticeri logo'r Cyngor Tref trwy law TTS.
6.3 Yn dilyn arolwg gweledol ar y cylchfan newydd yn y parc, Clerc wedi siarad â Mr Adrian Davies a oedd yn barod i dorri strip allan oddi amgylch y cylchfan ac i ail-osod. Trafodwyd y mater a chytunwyd i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd â'r Clerc gwrdd yn y fan a'r lle efo Mr Adrian Davies a dweud wrtho am ail-wneud y cyfan oll.
6.4 Cynlluniau'r Ganolfan Hamdden yn parhau, oedi gan y Comisiwn Elusennau, cais wedi mynd drwy'r Cabinet yn ddiweddar.

7. **CYFRIFON**
7.1 Cyflog y Clerc £469.80 (newid i fisol)
7.2 Cyflog Glanhawr £198.10 (newid i fisol)
7.3 Cyngor Sir Ceredigion (Lês Parc Sglefrio) £20
7.4 Smiths of Derby £266.40

Cynnig: Cyng June Owens
Eilio: Cyng Alun Owen

CADEIRYDD

8. **SWYDD GWEITHIWR STRYDLUN**

Derbyniwyd adroddiad o'r gweithiwr strydlun am y strydoedd sydd wedi derbyn ei sylw a soniwyd fod safon ei waith i'w ganmol yn fawr iawn. Y Dre yn edrych 100% yn well o ran glendid.

Gan nad oedd yr oriau llawn wedi'u weithio yn ystod y mis ni hawliwyd yr oriau'n llawn.

Clerc i gysylltu â Mr Gerwyn Jones i'r Gweithiwr Strydlun dderbyn y nwyddau a'r hyfforddiant pwrpasol

Trafodwyd copi drafft o'r datganiad i'r Wasg a chytunwyd i'r geiriad ac i Mr Gerwyn Jones i baratoi'r cyfieithiad a'r llun.

9. **CYMORTH ARIANNOL**

Trafodwyd y ceisiadau oedd wedi dod i law a chytunwyd yn unfrydol i ddosbarthu'r arian fel y ganlyn:-

Côr Meibion Caron £100; Cylch Meithrin Tregaron £100; Carnifal £100; Sioe Tregaron £100; Ffair Nadolig/Pasg £100; Clwb Pysgota Tregaron £100; Whilen y Porthmyn £100; Papur Bro Y Barcud £100; Tregaroc £100; Clwb Seiclo Caron £100; Campau Caron £100; Eisteddfod Gadeiriol Tregaron £100; Ffair Garon £100; Adran Ieuenctif y Turfs £100; Clwb Cerdded £100; Clwb Cinio Cylch Caron £100; 1st Tregaron Scouts £100; Amgueddfa a Chanolfan y Barcud £100; Ras Cors Caron £100; Clwb Snwcer Tregaron £100; Clwb Rasio Ceffylau £100; Plouvien £100; CFfI Tregaron £500 & Rhodd i'r Ganolfan Deulol £20 – Cyfanswm o £2,720

Cytunwyd i ddosbarthu'r sieciau i'r uchod yn ystod cyfarfod agored a threfnu'r gan Cyng Rhydian Wilson i ddiweddaru'r cyhoedd ar sefyllfa'r Ganolfan Hamdden ar nos Iau 13 Gorffennaf 2017. Clerc i hysbysu'r clybiau perthnasol i anfon cynrychiolydd i gasglu'r sieciau a Cyng Rhydian Wilson i ddosbarthu posteri oddi amgylch.

10. **SEDDI GWAG**

Derbyniwyd tri chais am y tair sedd wag, sef Mr Gary Rees, Mrs Karine Davies a Mrs Manon Wyn James a derbyniwyd yn unfrydol.

11. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

11.1 Rhis y Cais: A170476
Y Bwriad: Dymchwel balcony presennol a chodi estyniad llawr cyntaf ac ystafell wydr newydd
Safle: Noddfa, Pentre Isaf, Tregaron

DATGAN DIDDORDEB: Cyng Catherine Hughes

11.2 Rhis y Cais: A170399
Y Bwriad: Amnewid ATM a gosod uned "Bastion" mewnol.
Safle: Natwest, Station Road, Tregaron

Cynnig: Cyng Ann Jones
Eilio: Cyng Arwel Jones

12. **CANIATAD CYNLLUNIO**

Dim i'w gofnodi.

13. **CYNGOR SIR CEREDIGION**

13.1 Derbyniwyd e-bost oddi wrth Carys Owen, Cyfreithwraig Cyngor Sir Ceredigion i orffen y lês yn swyddogol rhwng y ddau Gyngor ac i ddadgofrestru gyda'r gofrestrfa tir trwy dalu'r swm o £20. Cytunwyd yn unfrydol.

13.2 Clerc wedi mynychu sesiwn hyfforddiant i Glercod ar y pwysigrwydd o'r Côd ymddygiad a'r Pwyllgor Safonau. Cynhelir sesiwn hyfforddiant i'r Cynghorwyr ddechrau mis Medi/Hydref .

14. **UN LLAIS CYMRU**

Dim i'w gofnodi.

15. **GOHEBIAETH**

15.1 Drafftiwyd a chytunwyd i gontract newydd i'r glanhawr gan gynnwys shifftiau glanhau'r toiledau yn y mart a glanhau'r strydoedd Tregaron gan gynnwys newid y tâl yn fisol i'r gweithiwr.

15.2 Drafftiwyd contract newydd i'r Clerc gan gynnwys y raddfa tâl newydd a chytunwyd i'w thalu'n fisol yr un peth a'r Glanhawr.
Cytunwyd yn unfrydol.

16. **UNRHYW FATER ARALL**

16.1 Derbyniwyd e-bost oddi wrth Mr Geraint Lewis, Swyddog Rheolaeth Amgylcheddol Cyngor Sir Ceredigion yn ein hysbysu o gwynion a dderbynnir am y gwastraff bwyd, gwastraff gardd a dodrefn meddal a gaiff ei ddymchwel i'r Afon Brennig. Bwriad Mr Lewis yw anfon llythyron o rybudd i drigolion cyfagos i'r afon.

16.2 Oriau'r fan symudol Natwest wedi newid i 10.55 yb hyd 12.10 yp.

16.3 Angen diweddaru'r gwefan Cyngor Tref Tregaron, Clerc i gysylltu â Thechnoleg Taliesin am y cyfarwyddiadau a'r cyfrineiriau i'r gwefan.

16.4 Eisiau Noel Jones edrych ar lwybrau Penddol (ar ôl i Cyng Catherine Hughes siarad ganddo am dorri'r clawdd) a llwybr Rhianfa (Tanffordd).

16.5 Angen torri clawdd Mr Simon Crowe nol tu cefn i'r Hen Orsaf Dân.

16.6 Clawdd Trefelin angen ei dorri nôl â chysylltu a Chyngor Sir Ceredigion am y llechi rhydd sydd ar y tô.

16.7 Nid yw'r fan Llyfrgell symudol wedi bod yn Nhregaron ers misoedd lawer. Derbyniwyd yr addewid fod yna fan o Bowys wedi'u benthyg i ddod â'r gwasanaeth nôl i Dregaron ond erbyn hyn nid yw'r fan ail-law o Bowys yn deilwng i fod ar y ffordd.

16.8 Derbyniwyd cwyn am yr arogl sydd yn dod o gyfeiriad fflat y Ganolfan Deuluol ar y sgwâr, angen hysbysu'r heddlu.

16.9 Soniwyd am y cŵn sy'n rhydd yn y parc ym Mrynheulog.

TERFYNWYD Y PWYLLGOR

CADEIRYDD